# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 10 Rhagfyr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A fydd cyllid Cymorth ar gyfer 'Chwarae' yng Nghymru yn parhau yn ystod 2011/12 ac, os nad, pa gyllid amgen a ddarperir. (WAQ56854) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Blant***

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis)**: Daw'r rhaglen Cymorth fel y'i darperir ar hyn o bryd i ben ym mis Mawrth 2011 a rhoddir trefniadau pontio ar waith ar gyfer 2011-12 i gefnogi'r broses o gyflwyno'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf, bydd Awdurdodau Lleol yn gallu darparu prosiectau sydd eisoes yn bodoli ac a gefnogir gan Cymorth ar hyn o bryd neu ddatblygu rhai newydd, yn unol â dadansoddiad ac asesiad o anghenion lleol.